



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru Education for Wales

LLAWLYFR MODWL

ECAD4010C

**Astudiaethau Proffesiynol ac Addysgeg:
Ymchwilio i'r Dysgu: beth, sut a pham
rydw i'n addysgu?**

**BA ADDYSG GYNRADD
gyda Statws Athro Cymwysedig**

LEFEL 4

YR ATHROFA

2019-20

Manylion cyswllt

Os bydd angen trafod rhywbeth sy'n ymwneud â'r modwl arnoch, cysylltwch â:

Alison S Evans, Arweinydd Modwl – Alison.evans2@uwtsd.ac.uk

Ein disgwyliadau

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau'r modwl a'r rhaglen ac rydym yma i'ch helpu. Dylech:

- Wneud defnydd da o gyfleusterau ac adnoddau'r Brifysgol
- Mynychu sesiynau a chymryd rhan ynddynt
- Ymddwyn yn gyfrifol

- Cyflwyno aseiniadau erbyn y dyddiadau terfynol
- Ymroi a chymryd rhan ym mhob sesiwn

Darllenwch Reoliadau'r Brifysgol i Fyfyrrwyr

Amcanion a Deilliannau Dysgu

AMCANION

- Ennyn diddordeb yr athro dan hyfforddiant yn rôl ymchwil y gwyddorau cymdeithasol mewn addysg a'i effaith ar arfer addysgol.
- Datblygu dealltwriaeth gychwynnol o anianawd ymchwil arfer moesegol a dod yn ymchwilydd medrus trwy'r cyfleoedd i ddefnyddio dull ymchwil arsylwi.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r athro dan hyfforddiant allu dangos y gallu i wneud y canlynol:

- Deall lle ymchwil yn arfer addysg a'i effaith ar addysgu a dysgu;
- Dechrau dadansoddi, dehongli a gwerthuso gwybodaeth ymchwil a gwneud cysylltiadau ag arfer personol;

- Dechrau datblygu arfer moesegol a dealltwriaeth o'i berthynas ag ymchwil trwy ddeall ystyriaethau moesegol ar lawr dosbarth;
- Deall bod gwahanol safbwyntiau a phersbectifau yn bodoli ym maes ymchwil addysg a dechrau datblygu safbwynt personol ar sail tystiolaeth;
- Deall, defnyddio a gwerthuso dull ymchwil arsylwi wrth gynnal arfer moesegol.

Perthynas â phedwar diben y cwricwlwm newydd:

Datblygu plant a phobl ifanc yn:	Perthynas â'r modwl hwn: Bydd myfyrwyr yn gallu:
Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.	Gwneud defnydd o'r dystiolaeth empirig gyfredol a chyfrannu at y sylfaen ymchwil er mwyn codi safonau a dyheadau'r holl ddysgwyr.
Cyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.	Defnyddio ymchwil agos-at-arfer i ddarparu ystod o gyfleoedd dysgu creadigol sy'n hyrwyddo ymreolaeth ac sy'n berthnasol i fywydau'r dysgwyr.
Dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd.	Mabwysiadu rôl athro proffesiynol o ran deall sgiliau cymhleth arfer moesegol.
Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd sy'n gwireddu eu dyheadau yn aelodau gwerthfawr o gymdeithas.	Cymhwyso dealltwriaeth o ddamcaniaethau ac ymchwil sy'n ymwneud â lles a datblygiad, i arfer personol.

Cyflwyniad i'r Modwl

Mae bod yn seiliedig ar ymchwil, wedi ei llywio gan ymchwil ac yn barod yn un o bedair egwyddor Partneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa ac felly, mae datblygu sgiliau ymchwil yn ganolog i'r rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA). Mae'r gwaith o ddynodi datblygiad a chynnydd sgiliau ymchwil trwy'r rhaglenni AGA wedi'i fapio ar strwythur modwlar y rhaglen.

Yn rhyngwladol, amgylcheddau ysgol sy'n seiliedig ar ymholi (neu sy'n gynhyrchu o ran ymchwil) yw nodwedd amlycaf systemau addysg sy'n gwneud yn arbennig o dda. Er mwyn bod ar eu mwyaf effeithiol, mae angen i athrawon ac addysgwyr athrawon:

- ymgysylltu **ag** ymchwil ac ymholi – golyga hyn ddilyn hynt y datblygiadau diweddaraf oddi mewn i arfer addysgol;
- cymryd rhan **mewn** arfer sy'n canolbwyntio ar ymholi – golyga hyn bod â'r gallu, y cymhelliad, yr hyder a'r cyfle i gynnal ymchwil yn y dosbarth.

Daeth ymholiad BERA/RSA (2014) i'r casgliad fod proffesiwn llythrennog o ran ymchwil yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau dysgwyr, a bod gallu ymchwil athrawon yn hanfodol i greu system addysg hunanwella. Yn ôl yr adroddiad, mae angen cynnal ffocws ar arfer sy'n seiliedig ar ymholi trwy gydol gyrfaedd proffesiynol athrawon, fel bod arloesi disgybledig ac ymholi cydweithredol yn cael eu hymgorffori ym mywydau ysgolion neu golegau nes mai dyna yw'r ffordd arferol o addysgu a dysgu, yn hytrach na'r eithriad (BERA/RSA, 2014¹).

Yn ychwanegol, mae ymchwil wedi'i nodi'n glir o fewn y Safonau Proffesiynol diwygiedig i athrawon.

¹ BERA/RSA (2014) Research and the Teaching Profession: Building the capacity for a self-improving education system. London: BERA.

“Ceir ymgysylltu strwythuredig mewn cymuned ymchwil weithredu a thystiolaeth o arfer sy’n cael ei llywio gan waith darllen ehangach a chanfyddiadau ymchwil ar raddfa genedlaethol a rhyngwladol” (LIC, 2017a²).

Bydd yn ofynnol i athrawon ddangos sut maen nhw’n bodloni’r safon hon trwy gydol eu gyrfaedd. Mae Llywodraeth Cymru yn dyheu i’r proffesiwn addysgu fod yn “ymgymryd â gwaith ymchwil, yn hyddysg ac yn dysgu o ragoriaeth” (LIC, 2017b³). Bydd y cwricwlwm newydd sy’n cael ei ddatblygu yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol i athrawon ddefnyddio’r dystiolaeth orau sydd ar gael i ddarparu profiadau dysgu ystyrlon ar gyfer eu disgyblion. Mae Donaldson (2015. t.71) yn datgan fod addysgeg gadarn “...yn galw am athrawon o ansawdd uchel sydd â dealltwriaeth drylwyr o ddulliau addysgu a’r rhesymau drostynt yn ogystal â chynnwys yr addysgu”.

Yn y modwl, cewch chi gyfle i ddylunio, defnyddio a gwerthfawrogi’r dull ymchwil o arsylwi wrth gynnal a chadw arfer moesegol.

² Welsh Government (2017a) Professional Standards for Teaching and Leadership. Cardiff: WG.

<https://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/170901-professional-standards-for-teaching-and-leadership-en.pdf>

³ Welsh Government (2017b) Education in Wales: Our National Mission. Cardiff: WG.

<i>Anianawd</i>	Gwybodaeth, sgiliau, dealltwriaeth ac ymddygiadau
<i>Bod yn sgeptigol</i>	Deall tystiolaeth empirig mewn maes lle mae anghytundeb: • Bod yn ymwybodol o'r gyrwyr gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol o blaid 'tystiolaeth', a goblygiadau 'tystiolaeth'.
<i>Bod yn foesegol</i>	Deall sylfaen foesegol ymholi mewn gweithle cymhleth: • Gwybod egwyddorion moesegol ymchwil; • Deall ymagweddu mewn ymchwil; • Deall eich credoau a'ch tybiaethau eich hun am y byd.
<i>Bod yn ymchwilydd medrus</i>	Deall egwyddorion ymchwil gwyddor gymdeithasol, a gwybod beth yw'r gwahanol ddulliau a ddefnyddir a pham: • Deall dulliau ansoddol a natur/statws canfyddiadau; • Deall dulliau meintiol a natur/statws canfyddiadau; • Deall dyluniadau pragmataidd. Deall sut i adeiladu dadl ar sail tystiolaeth a gwarant mewn ymchwil addysgol; • Defnyddio sgiliau darllen beirniadol; • Bod yn sgeptigol eich agwedd at y 'dystiolaeth'. Gwerthfawrogi'n feirniadol faint o gymorth a allai fodoli ai peidio ar gyfer theorïau poblogaidd a dylanwadol mewn meysydd megis datblygiad plant a natur dysgu: • Bod yn 'sgeptigol' eich agwedd at 'arloesi' (polisi ac ymarfer) neu'r 'peth mawr nesaf'. Deall sut i ddefnyddio tystiolaeth empirig yn eu hystafelloedd dosbarth a gwerthuso ei heffeithiolrwydd: • Bod yn glir am yr hyn a fwriadwyd a pham; • Diffinio'r paramedrau ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd.
<i>Bod yn rhan o broffesiwn ymholgar</i>	Cyfrannu i gymuned o ymarferwyr ymholgar: • Gwybod a ddylid, pryd a sut i rannu deilliannau ymholiad dosbarth; • Cyfrannu'n rhagweithiol i amrywiaeth o gynulleidfaoedd; • Mynd ati i ymwneud ag ymholi a chanfyddiadau eraill.

Trosolwg ar y Modwl

Bod yn Ymchwilydd Moesegol	
Bod yn Ymchwilydd Medrus	
Bod yn Ymchwilydd Sgeptigol	
Bod yn rhan o Broffesiwn Ymholgar	
Gweithgaredd pontio (cyfnewid gwybodaeth ddeallusol a thrwy brofiadau) O GANLYNIAD I'R PANDEMIG CORONAFEIRWS A CHAU YSGOLION, CAIFF Y DASG HON EI CHYNNAL DRWY ARSYLWAD FIDEO	

10 x 2awr addysg uniongyrchol (darlithydd, seminar, a thiworial) ynghyd ag astudiaethau a thasgau cyfeiriol

Sesiwn	Cynnwys	
1A 1B	Cyflwyniad i nodau ac amcanion modwl - Gogwydd i ddisgwyliadau L4 a ffyrdd o weithio; - Lleoliad deunyddiau ar Moodle; - Cyflwyniad i fod yn ymarferwyr a arweinir gan/sy'n seilio'u gwybodaeth ar ymchwil. - Cyflwyniad i Anianawd Ymchwil Yr Athrofa ac ystyriaeth o'r rhain dros amser; Cyflwyniad i ymchwil: Critigoldeb, adnoddau ymchwil a thueddiad. TASG GYFEIRIOL 1 – Darllen a gwneud nodiadau	
2	Datblygu agweddau beirniadol ac amheugar mewn perthynas ag addysgeg TASG GYFEIRIOL 2 – Blog: cyflwynwch 100 o eiriau	
3	Dod yn ymarferydd moesegol: caniatâd a chydysniad TASG GYFEIRIOL 3 – Creu un sleid PowerPoint	

Sesiwn	Cynnwys	
4	Llenyddiaeth empirig a damcaniaeth ei natur TASG GYFEIRIOL 4 – Darllen a gwneud nodiadau	
5	Dod yn athro crefftus: Cwestiynau ymchwil ac offer ymchwil TASG GYFEIRIOL 5 – Darllen a gwneud nodiadau	
6	Damcaniaeth arsylwi TASG GYFEIRIOL 6 – Treial arsylwi	
7	Amserlenni arsylwi TASG GYFEIRIOL 7 – Creu eich amserlen arsylwi eich hun	
8	Graddfa Leuven ar waith TASG GYFEIROIL 8 – Darllen a gwneud nodiadau	
9	Statws gwybodaeth a gwerthuso technegau TASG GYFEIRIOL 9 – Blog: Cyflwynwch 100 o eiriau	
10	Sesiwn 10 – Stwythur a awgrymir ar gyfer y raseiniad, a darllen/ysgrifennu er mwyn llwyddo	

Tasg asesu a chanllawiau – ffeithiau allweddol

Aseiniad ysgrifenedig (100%): <i>Cymharwch a chyferbynnu ystod o lenyddiaeth (sy'n ymwneud ag arsylwi) o amrywiaeth o ffynonellau o gwmpas thema (e.e. papurau newydd, dyddlyfrau, blogiau, gwefannau, dogfennau polisi) gan ddangos agwedd feirniadol ac ystyried ei effaith (h.y. yr ymchwil) ar ymarfer. (2,000 o eiriau)</i>	Aseiniad Ysgrifenedig Unigol	Cyflwyno: 15/05/2020
--	---------------------------------	-------------------------

Dyddiadau Pwysig

Diwrnod Ymchwil – dydd Iau 30/04/20

Cyflwyniad – dydd Gwener 15/05/2020

Darllen cefndirol hanfodol

Cod y Modwl	ECAD4010	
Teitl y Modwl	Astudiaethau Proffesiynol ac Addysgegol: Ymchwilio i'r Dysgu: beth, sut a pham rydw i'n addysgu?	
Categori	Rhestr ddarllen	Electronig
Hanfodol	Arthur, J. (Ed.). (2012) <i>Research methods and methodologies in education</i> . London: Sage Publications Ltd.	☐
Hanfodol	Bruce, T., Louis, S. & McCall, G. (2014) <i>Observing Young Children</i> . London: Sage Publications Ltd.	☐
Hanfodol	Cohen, L. Manion, L. and Morrison, K. (2018) <i>Research Methods in Education</i> , 8 th Edition. London: Routledge.	☐
Hanfodol	Noffke, S. E., & Somekh, B. (Eds.). (2009) <i>The Sage Handbook of Educational Action Research</i> . London: Sage Publications Ltd.	☒
Hanfodol	Punch, K. F. (2014) <i>Introduction to Social Research: Quantitative and Qualitative Approaches</i> . 3 rd edition. London: Sage Publications Ltd.	☐
Pellach	Alderson, P. & Morrow, V. (2011) <i>The Ethics of Research with Children and Young People: A Practical Handbook</i> , London: Sage Publications Ltd.	☒
Pellach	Bell, J. (2014) <i>Doing Your Research Project: A guide for first-time researchers</i> . Maidenhead:McGraw-Hill Education (UK).	☒
Pellach	Denzin, N. K. & Lincoln, Y. S. (eds) (2011) <i>The Sage Handbook of Qualitative Research</i> , London: Sage Publications Ltd.	☒
Pellach	Holliday, A. (2007) <i>Doing and Writing Qualitative Research</i> , London: Sage Publications Ltd.	☐
Pellach	Mauthner, M. L., Birch, M., Jessop, J. & Miller, T. (eds) (2012) <i>Ethics in Qualitative Research</i> , London: Sage Publications Ltd.	☒
Pellach	McKernan, J., & McKernan, J. (2013) <i>Curriculum action research: A handbook of methods and resources for the reflective practitioner</i> . London:Routledge.	☒
Pellach	Thomas, G. (2013) <i>How to do your research project: A guide for students in education and applied social sciences</i> . London: Sage Publications Ltd.	☒